

07/1/2022

Annwyl Rieni / Warcheidwaid

Ar ddechrau tymor y Gwanwyn 2022 yn Ysgol Glan Clwyd hoffwn ddymuno blwyddyn newydd dda i bawb o fewn cymuned yr ysgol.

Fel y gwyddoch mae cwmwl covid yn parhau uwch ein pennau ar ddechrau blwyddyn newydd ond rydym fel ysgol ar ganol deuddydd o baratoi ar gyfer ailagor i ddisgyblion wythnos nesaf. Gallaf gadarnhau ein bod i gyd fel staff yn gadarnhaol ac yn edrych ymlaen at groesawu pob disgybl yn ôl atom i'r ysgol ar fore Llun, Ionawr 10fed 2022.

Rydym yn ymwybodol fod nifer o ddisgyblion yn bryderus ar hyn o bryd ond rwy'n hyderus y bydd Ysgol Glan Clwyd yn parhau'n lle hapus a diogel iddynt ddychwelyd iddo. Bydd ein pwyslais eto'r tymor hwn ar ailafael yn y dysgu a sicrhau y gefnogaeth orau bosib i gynnydd a llesiant pob disgybl. Bydd ein pwyslais ar 'Barch a Charedigrwydd' yn parhau wrth reswm yn ystod y cyfnod hwn ac edrychwn ymlaen at gael pawb ynghyd eto a gallwn symud ymlaen gyda'n gilydd

Bydd gan rai disgyblion arholiadau allanol pwysig yr wythnos nesaf ac eto hoffwn liniaru pryderon a phwysleisio ein hymrwymiad llwyr eto i gefnogi Blwyddyn 11 yn y cyfnod hwn a sicrhau amgylchedd addysgol cadarnhaol a diogel iddynt ffynnu.

Wrth ailagor dydd Llun bydd rhai rhagofalon pwysig yn eu lle er mwyn sicrhau ein bod yn gallu parhau ar agor yn llawn ar gyfer cymuned Ysgol Glan Clwyd. Rydym wedi paratoi Canllaw Gweithredol ar gyfer ailagor ym mis Ionawr ac hoffwn eich cymhell fel rhieni i'w ddarllen a'i rannu gyda'ch plant. Byddwn wrth reswm yn cyfathrebu ac yn cefnogi'r disgyblion gyda'r newidiadau hyn pan ddychwelant i'r ysgol fore Llun.

Ond hoffwn dynnu sylw at rai penawdau pwysig cyn cloi.

Profion Llif Ochrol. LFDs.

Mae'r profion hyn bellach yn allweddol mewn ysgolion uwchradd ar gyfer yr holl ddisgyblion a staff. Y disgwyliad cryf gan Lywodraeth Cymru yw fod holl staff a dysgwyr oed uwchradd i ddefnyddio profion llif ochrol deirgwaith yr wythnos a chofnodi'r canlyniadau yma: <https://www.gov.uk/cofnodi-canlyniad-covid19>

Disgwylir i'r disgyblion wneud y profion a chofnodi'r canlyniad ar fore Llun, bore Mercher a bore Gwener. Bydd cyflenwadau ar gael yn yr ysgol.

Mygydau/Gorchuddion Wyneb

Mae'n hanfodol fod disgyblion a staff yn gwisgo mwgwd/gorchudd wyneb ym mhob rhan dan do o'r ysgol – gan gynnwys yn eu gwersi – lle na ellir sicrhau pellter. Mae'r rheol hon hefyd wrth reswm yn parhau ar holl gludiant ysgol. Bydd mygydau ar gael yn yr ysgol os oes prinder – ond hoffem ofyn i rieni sicrhau fod pob plentyn yn gadael y tŷ yn y bore gyda mwgwd yn barod ar gyfer y daith i'r ysgol a'r diwrnod wedi hynny yn Ysgol Glan Clwyd.

Awyru Da

Er mwyn sicrhau'r amgylchedd iachaf posibl byddwn yn sicrhau fod awyru da yn yr ysgol. Golyga hyn adael drysau a ffenestri'n agored. Hoffwn eich cymhell felly i annog eich plentyn i wisgo gwisg ysgol lawn yn ystod y tymor. Bydd y siwmpwr ysgol a'r blaser ysgol hefyd yn sicrhau cynhesrwydd ar adegau y bydd yn oerach o ganlyniad i'r awyru gorfodol.

Lleihau Cyfnodau o Ryngweithio Agos Rhwng Disgyblion

Byddwn yn cynllunio i leihau'r risg o ryngweithio agos rhwng disgyblion trwy reoli'r cyfnodau prysuraf yn y diwrnod ysgol. Byddwn yn gweithredi amserlen ddeuol yn yr ysgol er mwyn lleihau niferoedd disgyblion yn ystod amser egwyl a chinio. Gweler y canllaw am fanylion yr amserlen ddeuol.

Bydd y gwasanaeth arlwyo yn weithredol yn llawn ar amseroedd cinio yn yr ysgol ond dim ond ar amser cinio yn unig. Bydd dau eisteddiad cinio gyda Blwyddyn 7, 11, 12 a 13 mewn un eisteddiad a Blwyddyn 8, 9 a 10 yn yr eisteddiad arall. Gan fod dau gyfnod cinio yn yr ysgol ac er mwyn sicrhau rhediad diogel ac effeithiol y trefniadau hyn rydym yn cwtogi'r cyfnod cinio unigol i 40 munud

Amser Diwedd y Diwrnod Ysgol

Un effaith anuniongyrchol i'r newid amseroedd cinio yw fod angen i'r diwrnod ysgol orffen ychydig yn gynharach – **felly bydd y diwrnod ysgol yn Ysgol Glan Clwyd yn gorffen am 3:15.**

Newid dros dro yw hwn er mwyn lleihau rhyngweithio yn yr ysgol a hynny o ganlyniad i ddiddymiad dros dro Llywodraeth Cymru o'r rheoliadau amseroedd sesiynau ysgol. Mae'r newid wedi derbyn cefnogaeth y Pennaeth Addysg ac adran cludiant Sir Ddinbych. Hoffem bwysleisio wrth gwrs ein bod yn anrhydeddu'n llawn yr angen am 25 awr o wersi wyneb yn wyneb. Fe welir hynny'n glir o'r amserlen yn y Canllaw.

Mae llawer mwy na hyn yr hoffwn ei bwysleisio er mwyn dangos ein hymdrechion i ailagor yn ddiogel ac y gynaliadwy ar gyfer eich plentyn ac o'r herwydd anogaf bawb i droi at y canllaw yn llawn.

Rydym yn gweithredu'r rheolau hyn er mwyn sicrhau diogelwch a pharhad addysg yn Ysgol Glan Clwyd, ac i ategu'r neges o barch tuag at ein gilydd o fewn cymuned yr ysgol. Byddwn yn amlwg yn adolygu ein gweithredu yn gyson yn amodol ar amodau lleol a chenedlaethol, a byddwn yn parhau i ymdrechu i gyfathrebu'n llawn ac yn gyson gyda chi. Bydd yn amlwg yn gyfnod pan fydd angen i ni i gyd fod yn hyblyg ac yn ymateb i sefyllfa ddyrys sy'n newid yn gyson. Ond gallwch fod yn dawel eich meddwl mai lles a chynnydd disgyblion Ysgol Glan Clwyd sy'n gyrru pob un penderfyniad gennym fel staff.

Edrychwn ymlaen felly at groesawu eich plant yn ôl yn llawn i'r ysgol fore Llun a chofiwch gysylltu gyda ni os oes gennych faterion i'w trafod.

Yn gywir



Gwyn Tudur
Pennaeth